Home Office
Swyddfa Gartref

Teg, effeithiol, tryloyw a didwyll

Ailennyn hyder yn ein system fewnfudo

Y Swyddfa Gartref
Gorffennaf 2006

Cynnwys

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref a'r Ysgrifennydd Parhaol	**2**
Cyflwyniad: Sicrhau bod ein system fewnfudo yn addas ar gyfer y dyfodol	**4**
Pennod 1: Ymateb i newid	**6**
Pennod 2: Ein diben newydd	**8**
Pennod 3: Creu gwasanaeth sy'n addas ar gyfer y dyfodol	**14**
Pennod 4: Gwneud iddo ddigwydd	**21**
Atodiad: Crynodeb o'r cerrig milltir	**23**

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref a'r Ysgrifennydd Parhaol

Mae rheoli ein ffiniau yn hanfodol er mwyn diogelu buddiannau'r Deyrnas Unedig. Rhaid i'n system fewnfudo ein galluogi i weithredu rheolaeth briodol dros y bobl a ddaw yma a sicrhau bod pobl yn gadael pan na fydd ganddynt bellach yr hawl i fod yma. Rydym hefyd am groesawu pobl sydd ar eu gwyliau, ymwelwyr, buddsoddwyr, pobl fusnes a myfyrwyr a ddaw yma, gan ychwanegu at ein heconomi a chyfoethogi ein cymdeithas.

Yn anad dim, mae angen system sy'n diogelu'r wlad hon, sy'n atal achosion o gamddefnyddio ein cyfreithiau, sy'n deg i ymfudwyr cyfreithlon a'r cyhoedd ym Mhrydain ac y mae gan bobl hyder ynddi.

Mae'r cynnydd o ran globaleiddio, patrymau teithio ac ymfudo cyfnewidiol, a throsedd a therfysgaeth ryngwladol oll yn cyflwyno heriau i'n gwlad, fel y gwnânt i bob gwlad ddiwydiannol, ddatblygedig. Er bod ein systemau bellach yn llawer cryfach nag o'r blaen, maent yn gweithredu i'w heithaf, ac mae cyflymder newid yn parhau'n ddi-oed.

Mae angen i ni ragweld yr heriau sydd o'n blaenau a rhoi rhaglen o newid radical ar waith, yn seiliedig ar bedwar amcan.

- **Atgyfnerthu ein ffiniau a defnyddio gwiriadau llymach dramor, er mwyn sicrhau mai dim ond y rheini â chaniatâd** all deithio i'r DU; a sicrhau ein bod yn gwybod pwy sy'n gadael er mwyn i ni allu gweithredu yn erbyn y rheini sy'n torri'r rheolau.

- **Penderfyniadau lloches llwybr carlam,** gan alltudio'r rhai y bydd eu ceisiadau yn methu ac integreiddio'r rhai y mae angen ein diogelwch arnynt.

- **Sicrhau a gorfodi cydymffurfiaeth â'n cyfreithiau mewnfudo,** gan alltudio'r bobl fwyaf niweidiol yn gyntaf a gwrthod breintiau Prydain i'r rhai sydd yma'n anghyfreithlon.

- **Hybu economi Prydain** drwy ddenu'r sgiliau cywir yma o bob cwr o'r byd, a chan sicrhau bod y wlad hon yn hawdd ymweld â hi'n gyfreithlon.

Mae angen i ni gyflawni pum peth er mwyn bodloni disgwyliadau'r cyhoedd o ran newid.

- **Rhaid i ni benderfynu pwy y byddwn yn caniatáu iddynt ddod yma cyn iddynt deithio,** gan ddefnyddio gwybodaeth ac asesiadau risg i dargedu'r bobl, y llwybrau a'r lleoliadau sy'n peri'r bygythiad mwyaf o niwed.

- **Mae angen ymagwedd effeithiol arnom tuag at reoli'r broses o adnabod tramorwyr,** gan ei gwneud yn ofynnol iddynt feddu ar gerdyn adnabod unigryw a diogel er mwyn croesi ein ffiniau.

- **Mae angen camau gorfodi traws-lywodraeth arnom** i roi terfyn ar achosion o geisiadau twyllodrus am fudd-daliadau a gwasanaethau ac i fynd i'r afael ag achosion o weithio'n anghyfreithlon.

- **Rhaid i ni alltudio'r bobl hynny nad oes ganddynt yr hawl i fod yma yn gyflymach,** gan ddefnyddio'r goreuon o blith y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

- **Rhaid i ni ymdrin â'r etifeddiaeth o achosion lloches nas datryswyd.**

Yn anad dim, mae angen system ar gyfer rheoli mewnfudwyr a'n ffiniau sy'n deg, yn effeithiol, yn dryloyw ac yn ddidwyll.

Mae'r adroddiad hwn yn ategu'r strategaeth ceisio lloches a mewnfudo bum mlynedd a gyhoeddwyd yn 2005 ac yn nodi cynllun ar gyfer diwygio'r Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd (y Gyfarwyddiaeth) er mwyn rheoli ein ffiniau mewn ffordd effeithiol. Credwn y bydd rhoi'r newidiadau hyn ar waith yn arwain at wasanaeth mwy effeithiol, effeithlon a chadarn, gan adennill ymddiriedaeth pobl y wlad hon.



John Reid
Ysgrifennydd Cartref



David Normington
Ysgrifennydd Parhaol

Sicrhau bod ein system fewnfudo yn addas ar gyfer y dyfodol

Cyflwyniad gan y Gweinidog dros Genedligrwydd, Dinasyddiaeth a Mewnfudo a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd

Mae'r Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd (y Gyfarwyddiaeth) wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ddiweddar. Mae pobl yn y Gyfarwyddiaeth wedi dangos y gallant gyflawni newidiadau sylweddol. Gwnaethom ostyngiadau sy'n cymharu â'r lefelau gorau yn y byd o ran nifer y ceiswyr lloches a dderbyniwyd i'r wlad; rydym wedi cyrraedd y pwynt 'mantoli' lle rydym yn dychwelyd mwy o geiswyr lloches di-sail na'r nifer sy'n cyrraedd; ac rydym wedi cyflawni gostyngiadau sylweddol o ran amseroedd aros ar gyfer ymfudo rheoledig a chynnydd o ran boddhad cwsmeriaid.

Liam Byrne, y Gweinidog dros Genedligrwydd, Dinasyddiaeth a Mewnfudo a Lin Homer, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth, yn trafod diwygiadau gyda staff y Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd yn Lerpwl

Ond er mwyn cyflawni'r newidiadau hyn yn gyflym, bu'n rhaid i'r Gyfarwyddiaeth weithio o amgylch hen systemau a gwneud gwelliannau tameidiog. Dangosodd digwyddiadau diweddar y gall yr ymagwedd hon arwain at broblemau difrifol – megis methu ag ystyried ceisiadau i alltudio carcharorion sy'n dramorwyr. Mae angen i'r Gyfarwyddiaeth newid yn sylweddol er mwyn ymateb i'r heriau cynyddol sydd o'n blaenau, cyflawni gweledigaeth yr Ysgrifennydd Cartref ar gyfer y dyfodol ac adennill hyder y cyhoedd.

Mae angen dirfawr i ddarparu'r cyfreithiau, y systemau a'r cymorth sydd eu hangen ar y Gyfarwyddiaeth er mwyn iddi gyflawni'n effeithiol – nawr ac yn y dyfodol. Felly yn ogystal ag ystyried yr hyn y mae angen i'r Gyfarwyddiaeth ganolbwyntio arno yn y dyfodol, ystyriodd yr adolygiad hwn hefyd sut y gallwn sicrhau bod gan y sefydliad yr adnoddau priodol i gyflawni'r amcanion newydd hynny.

Yn ystod y chwe wythnos diwethaf, archwiliwyd y system fewnfudo gennym o safbwynt y rheng flaen. Cynhaliwyd trafodaethau uniongyrchol gennym â thros 600 o swyddogion mewnfudo, gweithwyr achos a rheolwyr ac ymgynghorwyd â miloedd o bobl eraill i ganfod yr hyn sydd ei angen arnynt i sicrhau bod y sefydliad yn gweithio'n well. Bu pobl yn barod iawn i gyfrannu, a hoffem ddiolch iddynt am hynny. Mae gweithlu'r Gyfarwyddiaeth yn uchelgeisiol ond yn rhwystredig iawn gan y prosesau a'r systemau sy'n eu hatal rhag cyflwyno'r gwasanaeth y maent yn anelu ato. Mae eu safbwyntiau wedi llywio ein cynlluniau ar gyfer diwygio a byddant yn parhau i wneud hynny.

Ochr yn ochr ag amcanion a phwerau newydd, rydym wedi nodi saith rhaglen allweddol ar gyfer newidiadau sylfaenol er mwyn sicrhau bod y Gyfarwyddiaeth yn addas ar gyfer y dyfodol.

- Byddwn yn **atgyfnerthu ac yn symleiddio ein cyfreithiau mewnfudo** er mwyn cyflymu penderfyniadau, cynyddu nifer y bobl a gaiff eu halltudio a rhoi pwerau effeithiol i'n gweithlu wneud eu gwaith.

- Byddwn yn **sicrhau bod y Gyfarwyddiaeth yn asiantaeth fwy pwerus**, gydag atebolrwydd cliriach i'r Senedd a'r cyhoedd, gyda'r rhyddid gweithredol sydd ei angen arni i gyflawni ei busnes, wedi'i ategu gan **bwyllgor annibynnol** i gynghori'r Llywodraeth ar fewnfudo a **rheoleiddiwr annibynnol** i ddarparu asesiad tryloyw o'r Gyfarwyddiaeth gyfan.

- Byddwn yn **atgyfnerthu ein harweinyddiaeth a'n rheolaeth ar bob lefel**, er mwyn ysgogi perfformiad cryfach.

- Byddwn yn sicrhau **rhagoriaeth mewn meysydd sylfaenol**, yn symleiddio prosesau presennol ac yn ysgogi gwelliannau parhaus.

- Byddwn yn **arweinydd o fewn y Llywodraeth o ran defnyddio technolegau newydd**, yn arbennig o ran biometrig ac olrhain.

- Byddwn yn dangos **rhagoriaeth o ran partneriaethau strategol a chydweithredu** â chyrff eraill y llywodraeth, busnesau a'r cymunedau a wasanaethir gennym.

- Byddwn yn **ysbrydoli diwylliant o wasanaeth cyhoeddus, brwdfrydedd a balchder** y bydd pawb yn y Gyfarwyddiaeth yn ei rannu.

Cynigion amlinellol yw'r rhain. Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn cyhoeddi manylion pellach ac yn ymgynghori lle bo angen. Bydd rhai newidiadau yn digwydd yn gyflym. Bydd eraill yn cymryd amser. Buddsoddiad hir dymor yw'r cynllun hwn, nid ateb cyflym. Ond rydym yn ymrwymedig i drawsnewid y ffordd y mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithio yn ystod y blynyddoedd nesaf, er mwyn i ni allu cyflwyno'r gwasanaethau y mae'r Senedd a'r cyhoedd yn haeddiannol yn eu disgwyl.

Liam Byrne
Y Gweinidog Gwladol dros
Genedligrwydd, Dinasyddiaeth a Mewnfudo

Lin Homer
Cyfarwyddwr Cyffredinol,
Y Gyfarwyddiaeth Mewnfudo
a Chenedligrwydd

Pennod 1:

Ymateb i newid

1.1 Yn dilyn y broses o globaleiddio a welwyd yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, daeth Prydain i'r amlwg fel un o wledydd mwyaf ffyniannus, agored a rhyngddibynnol y byd. Ond mae'r byd wedi newid yn sylfaenol. Daeth y Rhyfel Oer i ben. Datblygodd technoleg ar raddfa anhygoel. Mae gennym economi fyd-eang.

1.2 Yn sgîl ymfudo torfol, mae'r Deyrnas Unedig, yn ogystal â gwledydd diwydiannol, datblygedig eraill, yn wynebu heriau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen. Erbyn 2020 disgwyliwn i boblogaeth y byd gynyddu ddwy filiwn. Bydd naw deg pump y cant o'r twf hwnnw i'w weld yn y gwledydd sy'n datblygu. Mae'n bosibl y bydd llawer yn chwilio am fywyd gwell y tu hwnt i'w ffiniau. Bydd troseddau cyfundrefnol yn cynyddu yn sgîl pwysau ymfudo. Bydd terfysgaeth fyd-eang yn parhau'n fygythiad.

1.3 Mae Prydain wedi ymateb yn llwyddiannus i lobaleiddio. Yn ystod y ddau ddegawd nesaf, bydd cysylltiadau rhyngwladol cryfach yn hanfodol i'n ffyniant parhaus. Bydd angen ymfudo cyfreithlon arnom i lenwi bylchau yn ein marchnad lafur ac i sicrhau ein bod wedi'n cysylltu â marchnadoedd newydd y dyfodol, yn arbennig yn Tsieina, India a Brasil.

Ymateb i heriau ymfudo byd-eang

1.4 Mae Llywodraeth y DU yn greiddiol i'r broses o ymateb i'r heriau hyn.

- Rydym wedi datblygu ymagweddau newydd tuag at ddiogelwch ar y ffin. Mae lefel ceisiadau am loches tua chwarter eu lefel uchaf, ac yn cymharu'n ffafriol â gwledydd eraill Ewrop.
- Cynyddodd nifer y prif geiswyr lloches a alltudiwyd 91 y cant rhwng 1997 a 2005. Bellach ymdrinnir ag wyth deg y cant o achosion lloches o fewn deufis; yn 1997,

Ceiswyr lloches (gan gynnwys dibynyddion) fesul 1,000 o'r boblogaeth yn 2005



1. Ffigurau yn seiliedig ar ddata IGC ond wedi'u haddasu i gynnwys amcangyfrif o nifer y dibynyddion
2. Ffigurau yn seiliedig ar ddata UNHCR, gan gynnwys dibynyddion
3. Ffynhonnell: Gwasanaeth Ymchwil ac Ystadegau Mewnfudo, Y Swyddfa Gartref

roedd yn cymryd 22 mis ar gyfartaledd i benderfynu ar geisiadau.

- Rydym wedi lleihau'r achosion o ymfudo anghyfreithlon drwy borthladdoedd y Sianel drwy reolaethau cyfosodedig a chydweithredu â'n partneriaid yn Ffrainc a Gwlad Belg.
- Rydym wedi cyflwyno technoleg newydd i storio data biograffig a biometrig. Bellach, cymerir olion bysedd pob un sy'n gwneud cais am loches er mwyn atal achosion lle y bydd unigolyn yn gwneud mwy nag un cais.
- Rydym wedi cymryd cyfrifoldebau newydd i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

1.5 Cyflawnwyd cryn dipyn o'r newid hwn er gwaethaf hen systemau a phrosesau gwaith achos aneffeithlon a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer oes wahanol, a fframwaith cyfreithiol cymhleth yr ychwanegwyd diwygiadau brys dilynol ato. Wrth i batrymau ymfudo esblygu ymhellach, mae angen i systemau'r Gyfarwyddiaeth ymateb mewn ffordd wahanol.

Cyflymu cyflymder newid

1.6 Yn dilyn cyhoeddi'r strategaeth bum mlynedd y llynedd, rydym eisoes yn newid.

- Rydym yn cyflwyno proses newydd – y Model Lloches Newydd – i fynd i'r afael â cheisiadau am loches yn fwy effeithiol.
- Rydym yn creu system unigol yn seiliedig ar bwyntiau ar gyfer ymfudo er mwyn symleiddio'r llwybrau cymhleth presennol ar gyfer gweithio ac astudio yn y DU.
- Rydym yn cyflwyno technoleg ddatblygedig, megis biometrig, mewn porthladdoedd allweddol ac ar gyfer ceiswyr fisa, er mwyn atal achosion lle y bydd unigolion yn gwneud mwy nag un cais ac achosion o dwyll hunaniaeth.
- Rydym yn defnyddio partneriaid masnachol i gyflwyno rhai o'n gwasanaethau – yma a thramor.

1.7 Bellach mae angen i ni gyflymu'r cyflymder er mwyn trawsnewid ein system fewnfudo yn sylweddol. Felly rydym wedi bwrw golwg sylfaenol ar flaenoriaethau'r Gyfarwyddiaeth, y ffordd y caiff ei threfnu, ei systemau a'i phrosesau, ei phobl, ei sgiliau a'i diwylliant. Nodir ein canfyddiadau yng ngweddill yr adroddiad hwn.

Pennod 2:

Ein diben newydd

2.1 Ein blaenoriaeth yw cryfhau ein ffiniau, atal achosion o gamddefnyddio ein cyfreithiau mewnfudo a rheoli ymfudo er budd i'r DU.

2.2 Mae gennym bedwar amcan ar gyfer gwneud hynny.

Amcan 1: Byddwn yn cryfhau ein ffiniau ac yn defnyddio gwiriadau llymach dramor, er mwyn sicrhau mai dim ond y rheini â chaniatâd a all deithio i'r DU; a sicrhau ein bod yn gwybod pwy sy'n gadael er mwyn i ni allu gweithredu yn erbyn y rheini sy'n torri'r rheolau.

2.3 Mae angen i ni olrhain y rhai sy'n dod i'r wlad hon ac yn ei gadael er mwyn gweithredu rheolaethau mewnfudo effeithiol. Er mwyn asesu'r risg sydd ynghlwm wrth unigolyn penodol, rhaid i ni fod yn hyderus o ran pwy ydynt. Bydd datblygiadau newydd ym maes technoleg a biometreg yn rhoi sicrwydd i ni o ran pwy yr ydym yn ymdrin ag ef, gan olygu y byddwn – am y tro cyntaf – yn gallu olrhain pobl a fydd yn dod i'r wlad ac yn ei gadael.

2.4 Byddwn yn 'allforio ein ffiniau', gan gynnal gwiriadau cynyddol ar gymhwyster pobl o dramor i ddod yma cyn iddynt deithio. Byddwn yn defnyddio fisâu biometrig, sy'n cynnwys olion bysedd pobl. Byddwn yn defnyddio cynlluniau 'awdurdod i gludo' gyda chwmnïau cludo er mwyn cadarnhau pwy yw pobl a pha un a oes ganddynt yr hawl i ddod i'r wlad, ac er mwyn sicrhau na fyddant yn llwyddo i gyrraedd os nad oes croeso iddynt.

2.5 Byddwn yn cyfuno'r ffocws newydd hwn ar reoli hunaniaeth ag asesiadau risg trwyadl, er mwyn i ni allu targedu ein gweithgarwch ar lwybrau a phroffiliau teithwyr risg uchel. Caiff hyn ei ategu gan drefniadau newydd ar gyfer cronni gwybodaeth – gan adeiladu ar y trefniadau presennol ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol asiantaethau mewnfudo, gorfodi'r gyfraith a diogelwch – a chreu gwell prosesau ar gyfer cadarnhau cenedligrwydd tramorwyr yn y system cyfiawnder troseddol.

2.6 Fel rhan o adolygiad y Swyddfa Gartref, buom yn asesu blaenoriaethau strategol yr Adran, gan gynnwys y broses o weithredu'r cynllun hunaniaeth cenedlaethol.

2.7 Dyma un o'n prif flaenoriaethau, ac rydym yn parhau'n ymrwymedig i'w gweithredu'n gyflym. Nodwyd gennym o'r cychwyn mai fesul cam y caiff y cynllun hunaniaeth cenedlaethol ei weithredu. Bydd y broses yn dechrau gyda cheisiadau am fisâu biometrig, a gyflwynir erbyn 2008, cyflwyno trwyddedau preswyliaeth biometrig ar gyfer tramorwyr, a fydd ar waith erbyn 2008, gyda chardiau adnabod i ddinasyddion y DU yn cael eu cyflwyno wedi hynny.

Byddwn:

- erbyn 2008, yn sicrhau bod gofynion adnabod biometrig ar waith ar gyfer y gwledydd lle ceir y risg fwyaf;
- erbyn 2011, yn ei gwneud yn ofynnol i dramorwyr nad ydynt yn rhan o'r AEE feddu ar gardiau adnabod priodol cyn y caniateir iddynt deithio i Brydain, fel y gellir olrhain eu taith i'r wlad ac allan ohoni, y gellir nodi unrhyw weithgarwch troseddol blaenorol yn y DU ac y gellir gwrthod caniatâd i deithio;
- yn cynnal gwiriadau ar y ffin ar bobl cyn iddynt deithio i'r wlad hon, gan dargedu llwybrau risg uchel drwy ddadansoddiadau effeithiol o fygythiad a risg;
- ar unwaith yn ehangu'r rheolaethau gadael fesul cam yn seiliedig ar risg, yn nodi pwy sydd wedi aros yn y wlad yn rhy hir, ac yn cyfrif pawb i mewn ac allan o'r wlad erbyn 2014;

- yn gwneud y gwasanaeth rheoli ar y ffin yn fwy gweledol ac unffurf gyda phwerau a gallu goruchwylio estynedig er mwyn gorfodi ein ffiniau ffisegol yn fwy effeithiol ac atal achosion o ddod i'r wlad yn anghyfreithlon;
- yn cydweithio gyda phartneriaid yn Ewrop ac yn rhyngwladol i fynd i'r afael â heriau ymfudo byd-eang, gan gynnwys mesurau i ymdrin â throseddolrwydd trawsffiniol.

Amcan 2: Byddwn yn gwneud penderfyniadau lloches yn unol â chynllun carlam, yn alltudio'r rheini y bydd eu ceisiadau yn methu ac yn integreiddio'r rheini y mae angen ein diogelwch arnynt.

2.8 Rydym wedi gostwng nifer y ceiswyr lloches di-sail yn sylweddol, ac wedi cynyddu'r nifer a gaiff eu halltudio. Ond mae'r cyhoedd yn parhau o'r farn bod gormod o geiswyr lloches yn cael aros yma'n anghyfreithlon pan fydd eu ceisiadau yn methu.

2.9 Rhaid i ni adeiladu ar lwyddiant presennol y Gyfarwyddiaeth wrth leihau nifer y bobl a ddaw i'r wlad a chyflawni'r 'pwynt mantoli', gan lwyddo i alltudio mwy o geiswyr lloches y methodd eu cais na'r nifer sy'n gwneud ceisiadau di-sail. Byddwn yn cymhwyso'r model lloches newydd er mwyn sicrhau y caiff achosion lloches eu datrys yn gyflym, gyda'r rheini nad ydynt yn gymwys yn cael eu halltudio ar unwaith a ffoaduriaid dilys yn cael eu hintegreiddio.

2.10 Byddwn hefyd yn ymdrin â'r etifeddiaeth o achosion hŷn nad ydynt wedi'u datrys yn llawn eto. Bwriadwn wneud hyn o fewn pum mlynedd neu lai. Byddwn yn blaenoriaethu'r rheini a allai beri risg i'r cyhoedd, ac wedyn yn canolbwyntio ar y rheini y gellir eu halltudio yn haws, y rheini sy'n cael cymorth, a'r rheini y gellid rhoi caniatâd iddynt. Ymdrinnir â phob achos ar sail ei rinweddau unigol.

Byddwn:

- yn parhau i alltudio mwy o geiswyr lloches y methodd eu cais na'r nifer sy'n gwneud ceisiadau di-sail;
- erbyn diwedd 2011, yn rhoi lloches neu'n alltudio 90 y cant o'r bobl newydd a fydd yn gwneud cais am loches o fewn chwe mis. Er mwyn cyflawni'r garreg filltir hon, byddwn yn gwella ein perfformiad er mwyn rhoi lloches neu alltudio 35 y cant o bobl newydd a fydd yn gwneud cais am loches erbyn mis Ebrill 2007, 40 y cant erbyn mis Rhagfyr 2007, 60 y cant erbyn mis Rhagfyr 2008, a 75 y cant erbyn mis Rhagfyr 2009;
- yn ymdrin â'r etifeddiaeth o achosion nas datryswyd o fewn pum mlynedd neu lai;
- yn cynyddu ein heffeithiolrwydd wrth alltudio pobl drwy ehangu nifer y bobl a gaiff eu cadw yn y ddalfa a thagio neu fonitro pob un a fydd yn gwneud cais am loches; ac
- yn integreiddio ffoaduriaid dilys mewn cydweithrediad â chymunedau lleol er mwyn ategu cydlyniad cymdeithasol.

Amcan 3: Byddwn yn sicrhau a gorfodi cydymffurfiaeth â'n cyfreithiau mewnfudo, gan alltudio'r bobl fwyaf niweidiol yn gyntaf a gwrthod breintiau Prydain i'r rhai sydd yma'n anghyfreithlon.

2.11 Mae'r rhan fwyaf o ymfudwyr yn ufuddhau i'r rheolau ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r DU. I'r rheini sy'n torri ein rheolau, rhaid i ni gymryd camau llymach a rhoi mwy o rym i'r system. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod gennym syniad clir o ran lle y cyfyd risgiau, gan flaenoriaethu ein gweithgareddau yn unol â hynny. Byddwn yn ehangu ein gwaith yn sylweddol i orfodi ein cyfreithiau mewnfudo, gan gynnwys alltudio'r rheini nad oes ganddynt yr hawl i fod yma, ac annog a sicrhau cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau hynny drwy'r system fewnfudo gyfan.

2.12 Fel rhan o hyn, mae angen i ni ddatblygu strategaeth orfodi drawslywodraeth a fydd yn gweithio i roi terfyn ar allu pobl i wneud ceisiadau twyllodrus am fudd-daliadau a gwasanaethau, mynd i'r afael ag achosion o weithio anghyfreithlon, ac alltudio mwy o'r bobl nad oes ganddynt yr hawl i fod yma.

2.13 Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau cyflogwyr i sicrhau bod cyflogwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a bod ganddynt systemau cadarn ar waith i atal gweithwyr anghyfreithlon rhag cael eu cyflogi. Byddwn yn datblygu systemau cymorth mwy effeithiol i helpu cyflogwyr i wirio bod pobl yn gweithio'n gyfreithlon; ac yn unol â hynny, byddwn yn cosbi'r rheini sy'n cyflogi gweithwyr anghyfreithlon drwy osod dirwyon ar gyfer cyflogwyr euog ac atafaelu asedion troseddwyr parhaus. Byddwn yn sefydlu cydberthynas weithgar gyda Thaclo'r Tacle i roi cyfle i bobl gynorthwyo wrth nodi cyflogwyr sy'n troseddu yn y fath fodd. Byddwn yn ystyried amrywiaeth o gosbau pellach yn erbyn troseddwyr difrifol.

2.14 Rydym hefyd yn bwriadu gweithredu amrywiaeth o gamau gweithredu i ddymchwel rhwystrau i alltudio. Byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu yn erbyn y rheini sy'n achosi'r niwed mwyaf, gan gynnwys carcharorion sy'n dramorwyr a phobl sy'n peri bygythiad i'n diogelwch cenedlaethol. Fel rhan o hyn, byddwn yn herio cyfraith achos Llys Hawliau Dynol Ewrop sy'n ein hatal rhag cydbwyso'r bygythiad y mae rhywun yn ei beri i'n diogelwch a'n cymdeithas os byddant yn aros yma yn erbyn y risg y caent eu cam-drin pe caent eu dychwelyd i'w gwlad eu hunain.

2.15 Byddwn yn parhau i ddatblygu'r wyth maes a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref fel meysydd i weithredu arnynt er mwyn gwella effeithiolrwydd sylfaenol ein trefniadau ar gyfer alltudio carcharorion sy'n dramorwyr, gan gynnwys yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd hyn yn cynnwys:

- Ymagwedd drawsbynciol newydd gan yr asiantaethau cyfiawnder troseddol i nodi a rheoli achosion carcharorion sy'n dramorwyr, a chyda'r asiantaethau iechyd ar gyfer y rheini ag anhwylder meddyliol.
- Diwygio'r gyfraith i olygu mai alltudio fydd y cam tybiedig ar gyfer carcharorion sy'n dramorwyr.
- Camau trawslywodraeth i sicrhau y caiff mwy o garcharorion sy'n dramorwyr eu trosglwyddo i fwrw eu dedfryd dramor neu fel arall y cânt eu halltudio o'n carchardai cyn gynted â phosibl, yn gyson â'u cosb a chamau atal.
- Deddfu i ddiddymu'r gofyniad i'r carcharor roi caniatâd i gael ei drosglwyddo i'w wlad ei hun i fwrw ei ddedfryd yno.

2.16 Byddwn hefyd yn cynyddu ein hymdrechion i ymdrin â'r rhwystrau i alltudio ceiswyr lloches y methodd eu cais a'r rheini sydd yma yn anghyfreithlon. Yr heriau allweddol yw sicrhau:

- bod llywodraethau eraill yn barod i dderbyn eu dinasyddion eu hunain yn ôl, gan gynnwys mewn achosion lle y byddant wedi dinistrio eu pasportau neu eu dogfennau teithio;
- na all pobl lusgo achosion gwan drwy'r llysoedd am gyfnodau estynedig er mwyn rhwystro ymdrechion i'w halltudio;
- ein bod yn atal pobl sy'n gwneud cais am loches rhag dianc pan fydd eu cais yn methu.

2.17 Yn ogystal, o dan y Cynllun yn Seiliedig ar Bwyntiau, bydd cyflwyno system nawdd yn golygu y bydd angen i'r rheini sy'n cael y budd mwyaf uniongyrchol o ymfudo – cyflogwyr a sefydliadau addysgol – gymryd mwy o gyfrifoldeb dros sicrhau cydymffurfiaeth y gweithwyr a'r myfyrwyr hynny y maent am eu denu i'r DU.

Dymchwel rhwystrau i alltudio

Ymdrin â'r bobl fwyaf niweidiol

- **Byddwn yn ceisio cyfyngu'r rhwystrau i alltudio sy'n deillio o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)** drwy ein hymyrraeth yn yr achos o'r Iseldiroedd sydd ger bron Llys Ewrop yn herio achos Chahal. Ar hyn o bryd, mae hyn yn ein hatal rhag ystyried y risg y mae rhywun yn ei pheri i'n diogelwch ac i'r cyhoedd ym Mhrydain a'i chydbwyso yn erbyn y risg y caiff y person hwnnw ei gam-drin os caiff ei ddychwelyd i'w wlad ei hun.
- **Byddwn yn datblygu ein gwaith dwys ar femoranda cyd-ddealltwriaeth a'r defnydd o sicrwydd personol** gyda llywodraethau eraill er mwyn sicrhau ei bod yn bosibl dychwelyd y rheini sy'n peri bygythiad i'n diogelwch a'n cymdeithas yn unol â'n rhwymedigaethau o dan y Confensiwn. Rydym yn ceisio alltudio sawl unigolyn sy'n peri pryder diogelwch cenedlaethol. Fel y dywedodd y Prif Weinidog, os cyfyd rhwystrau cyfreithiol, byddwn yn deddfu i ymdrin â hwy.
- **Byddwn yn newid y gyfraith i sicrhau mai alltudio yw'r norm ar gyfer carcharorion sy'n dramorwyr; rydym wrthi ar unwaith yn symleiddio'r rheolau mewnfudo ar alltudio** i ddiddymu gofynion sy'n mynd y tu hwnt i ofynion y Confensiwn.
- **Byddwn yn ceisio atgyfnerthu, ehangu, a, lle y bo'n briodol, ail-negodi cynigion** i **drosglwyddo** carcharorion a byddwn yn deddfu i ddiddymu gofynion i gael caniatâd y carcharor.
- **Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau y defnyddir y cynllun alltudio cynnar cymaint â phosibl,** a byddwn yn ystyried ei ehangu.

Dymchwel rhwystrau i alltudio a chyflymu'r broses

- **Byddwn yn parhau i ddwyn pwysau ar lywodraethau eraill i ail-ddogfennu eu dinasyddion.** Ym mis Rhagfyr 2005, roedd angen darparu dogfennau newydd ar gyfer 83 y cant o'r ceiswyr lloches y methodd eu cais cyn y gellid eu halltudio, ac roedd saith o'r deg gwlad lle y daw'r nifer uchaf o geiswyr lloches ohonynt yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw un yr oeddem am eu dychwelyd yn meddu ar basport dilys.
- **Byddwn yn gweithio ar draws y llywodraeth i ddatblygu strategaethau ar gyfer gwledydd penodol er mwyn sicrhau bod cydweithredu mewn perthynas ag ail-ddogfennu a dychwelyd yn nodwedd allweddol o'n cysylltiadau dwyochrog** â gwledydd lle y ceir pryder o ran mewnfudo, a byddwn yn monitro effaith y strategaethau hyn yn rheolaidd.
- **Byddwn yn ceisio cyflwyno protocolau newydd ar gyfer adolygiadau barnwrol** er mwyn sicrhau na chaiff adolygiadau barnwrol eu camddefnyddio.
- **Byddwn yn ehangu apeliadau nad ydynt yn ataliedig** – lle mai dim ond o dramor y gall pobl sy'n gwneud cais am loches a hawliau dynol apelio – i fwy o wledydd lle y gallwn gynnal asesiad sy'n datgan nad oes unrhyw risg 'gyffredinol' o erlyn, a byddwn yn defnyddio ein pwerau fwy ar sail achosion unigol.
- **Byddwn yn ailystyried y gyfraith ar alltudio** fel rhan o adolygiad ehangach i atgyfnerthu a symleiddio ein cyfraith mewnfudo, gan gyflymu penderfyniadau a gwella eu cysondeb.

Byddwn yn:

- dyblu ein hadnoddau gorfodi a chydymffurfio ac yn ehangu ein gweithgaredd erbyn 2009/10, a byddwn yn alltudio'r rheini sy'n peri'r risg fwyaf yn gyntaf, gan gynnwys carcharorion sy'n dramorwyr;
- gofyn am dystiolaeth o genedligrwydd yn ein trafodaethau gyda'r system cyfiawnder troseddol; cysylltu troseddolrwydd yn gliriach ag alltudio; diddymu'r hawl i apelio yn y wlad; a symleiddio gweithdrefnau ac fel arall yn cael gwared ar rwystrau i alltudio carcharorion sy'n dramorwyr;
- cosbi cyflogwyr sy'n euog o gyflogi gweithwyr anghyfreithlon drwy:
  - gweithredu dirwyon ar gyfer cyflogwyr ac atafaelu asedion troseddwyr parhaus;
  - gwahardd swyddogion cwmnïau sy'n cytuno i gyflogi gweithwyr anghyfreithlon neu'n cynllwynio'n fwriadol i gyflogi gweithwyr anghyfreithlon;
- gweithio ar draws adrannau'r llywodraeth i roi terfyn ar geisiadau twyllodrus am fudd-daliadau;
- sicrhau bod mewnfudo yn fater i'r llywodraeth gyfan gyda thargedau cyffredin.

Amcan 4: Byddwn yn hybu economi Prydain drwy ddenu'r sgiliau cywir yma o bob cwr o'r byd, a thrwy sicrhau ei bod yn hawdd ymweld â Phrydain yn gyfreithlon.

2.18 Mae angen system syml, deg a thryloyw arnom er mwyn penderfynu pwy all ddod yma neu a all aros yma. Rydym eisoes yn symud i System yn Seiliedig ar Bwyntiau i bobl sydd am weithio neu astudio ym Mhrydain. Nawr mae angen i ni ddatblygu ymagwedd sy'n cynnwys y llywodraeth gyfan tuag at ymfudo, ac yn ogystal, mae angen i ni sefydlu Pwyllgor Cynghori newydd ar Ymfudo. Byddai'r pwyllgor hwn yn cynghori'r Llywodraeth o ran lle y byddai'n ddoeth i ddefnyddio ymfudo i lenwi bylchau sgiliau yn yr economi.

2.19 Mae angen i ni sicrhau hefyd ein bod yn codi cyfraddau teg a darbodus am ein gwasanaethau. Byddwn yn cyflwyno system codi tâl fwy cynhwysfawr ar gyfer gwasanaethau'r Gyfarwyddiaeth, er mwyn adlewyrchu cost wirioneddol y gweithgaredd hwn i drethdalwyr y DU, tra'n cydnabod hefyd fuddiannau teithio, ymfudo a myfyrwyr rhyngwladol i'r economi. Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein gwelliannau presennol ym maes gwasanaethau cwsmeriaid, gan gynnwys ei gwneud yn haws i 'deithwyr yr ymddiriedir ynddynt' ddod i'r wlad – er enghraifft drwy'r dechnoleg biometrig IRIS sydd bellach ar waith mewn rhai o'n prif borthladdoedd.

Byddwn yn:

- gweithredu'r System yn Seiliedig ar Bwyntiau i ddenu'r gweithwyr a'r myfyrwyr yr ydym am eu denu i Brydain;
- creu Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo i gynghori'r Llywodraeth ar ymfudo;
- defnyddio biometreg i helpu teithwyr yr ymddiriedir ynddynt i ddod i'r wlad ac i adael y wlad yn gyflymach; ac
- ei gwneud yn ofynnol i ymfudwyr cyfreithlon sy'n awyddus i ymgartrefu yma i ddatblygu eu sgiliau Saesneg er mwyn hwyluso'r broses o'u hintegreiddio.

2.20 Mae'r angen am fframwaith mewnfudo cyfreithiol cryfach a symlach yn sail i'r pedwar amcan hwn. Cyflwynwyd y fframwaith presennol yn 1971, pan oedd y byd yn lle gwahanol iawn. Mae'r rheolau a ddeilliodd o'r angen am ddiwygiadau dilynol, hanfodol bellach yn gymhleth ac yn anhydrin.

Byddwn yn:

- atgyfnerthu a symleiddio'r gyfraith a Rheolau Mewnfudo, er mwyn cyflymu a symleiddio'r system fewnfudo, gan gynnwys alltudio.

Pennod 3:

Creu gwasanaeth sy'n addas ar gyfer y dyfodol

Sefydliad sy'n esblygu

3.1 Mae'r newid byd-eang a ddisgrifiwyd ym Mhennod 1 wedi rhoi pwysau aruthrol ar y fframwaith cyfan y mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithredu o'i fewn.

3.2 Mae graddfa a chyflymder y newid wedi'i gwneud yn ofynnol i'r Gyfarwyddiaeth ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau, ac o ganlyniad, mae sawl rhaglen newid ar waith ond heb eu cwblhau. O ganlyniad, mae ganddi gyfres gymhleth o bolisïau, prosesau, strwythurau, cydberthnasau, a systemau rheoli gwybodaeth. Ni lwyddodd ychwaith i reoli perfformiad yn ddigon cadarn ar bob lefel ar draws y busnes.

3.3 Er y bu'r Gyfarwyddiaeth yn hynod lwyddiannus mewn rhai meysydd – er enghraifft, wrth leihau nifer y ceiswyr lloches a gaiff eu derbyn i'r wlad a chyflawni'r targed o ran y pwynt mantoli – nid yw wedi cyflawni mewn meysydd eraill, yn arbennig o ran peidio â rhoi ystyriaeth i alltudio carcharorion sy'n dramorwyr. Mae angen i'r Gyfarwyddiaeth 'dacluso' ei sefydliad – gan symleiddio a chael gwared ar achosion o ddyblygu – ac ymdrin â'i gallu i gyflawni perfformiad cyson ac effeithiol ymhob rhan o'r sefydliad. Ni ellir parhau â'r ymagwedd dameidiog i ysgogi newid ar y fath raddfa.

Yr achos dros newid

3.4 Mae angen i'r Gyfarwyddiaeth, ochr yn ochr â'r Swyddfa Gartref gyfan, newid yn sylfaenol o ran y math o sefydliad a weithredir ganddi, y systemau a'r prosesau a ddefnyddir ganddi, a'r ffordd y gwna ei gwaith. Mae angen diwygiadau sefydliadol brys yn y meysydd canlynol.

- Mae'r gyfraith yn gymhleth ac mae angen ei hatgyfnerthu a'i symleiddio ymhellach er mwyn galluogi i'r Gyfarwyddiaeth weithredu'n effeithiol ymhob achos.
- Mae gan y Gyfarwyddiaeth strwythurau a phrosesau cymhleth a blaenoriaethau ac atebolrwydd cymysg, sy'n arwain at fiwrocratiaeth a rhaniadau yn hytrach na ffocws cyson ar ganlyniadau cyffredinol.
- Ni chaiff sgiliau a rolau bob amser eu cyfateb yn dda ac nid yw'r systemau rheoli perfformiad drwy'r sefydliad yn ddigon cadarn.
- Nid yw systemau TG a gwybodaeth reoli'r Gyfarwyddiaeth wedi llwyddo i ddatblygu yn unol â gofynion cyfnewidiol.
- Mae'r Gyfarwyddiaeth i raddau helaeth yn ymateb i ddigwyddiadau yn hytrach na rheoli risgiau a rhagweld problemau newydd ac achub y blaen arnynt.

3.5 Yn anad dim, mae angen i'r Gyfarwyddiaeth ddod yn wasanaeth sy'n ennyn ymddiriedaeth ar ran y cyhoedd, ac ymrwymiad a hyder y bobl sy'n gweithio o'i mewn. Rydym wedi creu'r darlun hwn drwy gynnal trafodaethau â phobl ar y rheng flaen, drwy raglen ddwys o ymweliadau, gweithdai, ymgynghori a gwaith maes, a hoffem ddiolch iddynt am drafod mewn ffordd mor onest ac agored. Caiff ein blaenoriaethau eu llywio gan eu sylwadau, a byddwn yn parhau i gydweithio, fel un sefydliad, i weithredu newid.

Liam Byrne, y Gweinidog dros Genedligrwydd, Dinasyddiaeth a Mewnfudo, yn siarad â staff y Gyfarwyddiaeth yn Lunar House, Croydon

Saith rhaglen newid

3.6 Er mwyn cyflawni hyn, bwriadwn weithredu saith rhaglen newid o fewn y Gyfarwyddiaeth. Mae'r rhain yn rhan o'r meysydd allweddol i weithredu arnynt a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Diwygiadau'r Swyddfa Gartref ar 19 Gorffennaf 2006.

Rhaglen 1: Atgyfnerthu a symleiddio fframwaith cyfreithiol cymhleth y Gyfarwyddiaeth

Credai swyddogion mewnfudo yn Heathrow ac yn Lerpwl mai'r prif reswm dros ein systemau a'n prosesau cymhleth yw cymhlethdod y ddeddfwriaeth y mae'n rhaid i bobl ei dilyn. Awgrymwyd ganddynt y dylid trawsnewid pob agwedd ar y fframwaith mewnfudo cyfreithiol ac y dylid cyflwyno pwerau newydd i fynd i'r afael â phroblemau penodol.

Pwerau newydd nawr

3.7 Mae yna faterion y mae angen ymdrin â hwy ar unwaith:

- Yn gyntaf, mae methiant y Gyfarwyddiaeth i roi ystyriaeth i alltudio carcharorion sy'n dramorwyr wedi amlygu'r ffaith nad yw'r gyfraith bresennol o ran alltudio, a gyflwynwyd yn 1971, yn ei gwneud yn ddigon amlwg y dylai troseddolrwydd fel arfer arwain at alltudio. Mae'r system bresennol yn rhoi gormod o gyfle i ddadlau ac achosi oedi ymhob cam o'r broses.
- Yn ail, mae angen pwerau estynedig arnom i atgyfnerthu gwaith rhyngasiantaeth ar ein ffiniau, yn unol â'r drefn ar gyfer troseddau difrifol a chyfundrefnol.

Symleiddio fframwaith cyfreithiol y Gyfarwyddiaeth

3.8 Byddwn yn sicrhau bod gan y Gyfarwyddiaeth fframwaith cyfreithiol clir wedi'i symleiddio. Bydd hyn yn rhoi'r pwerau sydd eu hangen ar bobl yn y Gyfarwyddiaeth i wneud y gwaith ac yn sicrhau eu bod yn eu gweithredu mewn ffordd deg, cyson ac effeithiol. Bydd hyn yn arwain at benderfyniadau mwy gwrthrychol o fewn fframweithiau clir wedi'u codio ac yn rhoi terfyn ar gonsesiynau. Rydym am i'r cyhoedd a'r rheini sy'n awyddus i ddod yma fod yn glir ynghylch y rheolau, ac ynghylch eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Rydym am ddatgan nad oes croeso i droseddwyr a thwyllwyr gan amlygu'r canlyniadau i'r rhai a fydd yn manteisio ar ein croeso. Rydym yn bwriadu cynnal proses drawsnewid sylfaenol ac rydym yn cydnabod y bydd hyn yn cymryd amser. Byddwn yn ymgynghori yn ystod 2007, gyda'r bwriad o gyflwyno cynigion yn 2008.

Byddwn yn:

- cyflwyno Mesur cynnar i gymryd pwerau newydd, gan gynnwys i sicrhau y bydd carcharorion sy'n dramorwyr yn wynebu cael eu halltudio'n awtomatig, ac i atgyfnerthu ein ffiniau;
- diwygio a symleiddio cyfreithiau, rheolau a chanllawiau mewnfudo yn sylweddol.

Rhaglen 2: Creu fframwaith cryf o ran cyflwyno ac atebolrwydd

Roedd gweithwyr achos yn Sheffield ac mewn lleoliadau rhanbarthol eraill yn teimlo'n bell o Bencadlys y Gyfarwyddiaeth a'r Swyddfa Gartref ehangach ac nid oeddent yn glir sut roedd rhannau eraill o'r Gyfarwyddiaeth yn gweithredu, ac nid oeddent yn teimlo bod ganddynt y pŵer i ddatrys problemau bach fel darllenwyr Cardiau Cofrestru Cais.

3.9 Mae angen i'r Gyfarwyddiaeth drawsnewid ei hun i greu sefydliad cyflwyno gwasanaeth sy'n glir ynghylch ei rôl, ei gydberthynas â'r Swyddfa Gartref ehangach, UKvisas ac adrannau eraill y llywodraeth, a'r ffordd y caiff ei berfformiad ei farnu gan y cyhoedd. Mae angen iddi ganolbwyntio ar gyflwyno gweithredol a sicrhau bod ganddi linellau atebolrwydd clir ar gyfer gwneud hynny.

Rheoleiddiwr newydd a phwyllgor cynghori newydd

3.10 Byddwn yn ymgynghori ar un rheoleiddiwr unigol newydd i symleiddio'r amrywiaeth presennol o brosesau arolygu a rheoleiddio ac i ddarparu asesiad tryloyw ac annibynnol o'r Gyfarwyddiaeth a'i gwasanaethau, gan gynnwys perfformiad rhanbarthol, fel y bydd pobl yn gwybod pa mor effeithiol yw'r Gyfarwyddiaeth yn eu hardal hwy. Mae angen i'r cyhoedd fod yn hyderus bod y system gyfan yn gweithio, bod risgiau yn cael eu nodi ac y gweithredir arnynt, a bod yr arfer gorau yn cael ei rannu. Ar hyn o bryd, er bod sawl corff gwahanol yn arolygu'r Gyfarwyddiaeth, ni chynhelir un trosolwg syml o'i pherfformiad. Mae un corff a fydd yn cyflwyno

adroddiad i'r Senedd ar y Gyfarwyddiaeth yn rhoi cyfle gwirioneddol i ysgogi gwelliant parhaus ac i gynyddu hyder yn y system. Byddai'r rheoleiddiwr hwn yn symleiddio'r systemau rheoleiddio ac arolygu rhanedig presennol, a byddai'n darparu persbectif annibynnol a chyson ar berfformiad y Gyfarwyddiaeth gyfan.

3.11 Byddwn hefyd yn sefydlu Pwyllgor Cynghori newydd ar Ymfudo, a fydd yn cynnwys arbenigwyr annibynnol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi argymhellion i'r llywodraeth o ran lle y byddai'n ddoeth i ddefnyddio ymfudo i lenwi bylchau sgiliau yn yr economi.

3.12 Bydd y Pwyllgor yn sicrhau y caiff buddiannau gwahanol randdeiliaid eu hadlewyrchu'n briodol yn ei gyngor. Y nod fydd cyflwyno barn hyddysg ac amhleidiol ar y ffordd y dylid rheoli ymfudo er budd y wlad gyfan.

Asiantaeth bwerus ac atebol gyda chysylltiadau cryf â'n cymunedau

3.13 Mae angen i'r Gyfarwyddiaeth ddod yn fath gwahanol o sefydliad: yn asiantaeth fwy pwerus gyda'r rhyddid gweithredol sydd ei angen arni i gyflwyno ei gwasanaethau, ond ag atebolrwydd cliriach i'r Senedd a'r cyhoedd. Bu statws asiantaeth yn gatalydd llwyddiannus ar gyfer newid sawl sefydliad o fewn y llywodraeth. Byddai'r Gyfarwyddiaeth yn cael budd o'r ddisgyblaeth a fyddai ynghlwm wrth statws asiantaeth. Mae sawl gwahanol fodel o asiantaeth, y byddwn yn eu hystyried yn ystod y misoedd nesaf, er mwyn sicrhau y caiff yr un mwyaf priodol ei weithredu gennym. Dylai'r model priodol alluogi'r Gyfarwyddiaeth i wella ei dulliau cyflwyno a'i phrosesau rheng flaen o fewn fframwaith perfformiad newydd, a fydd yn darparu:

- gwell eglurder o ran amcanion cyffredinol ar gyfer y sefydliad a'r cyhoedd;
- mwy o atebolrwydd ac ymddiriedaeth drwy fframwaith clir ar gyfer cyflwyno a rheoli perfformiad;
- grymuso staff rheng flaen, gan roi'r annibyniaeth iddynt ddatrys materion gweithredol yn haws;
- gwell dulliau cyflwyno drwy amrywiaeth o systemau gwasanaeth;
- strwythurau a systemau wedi'u teilwra'n arbennig, wedi'u halinio'n well â'r ffordd y bydd y sefydliad yn gweithio yn y dyfodol;
- mwy o ryddid i reoli ei phobl a'i hadnoddau;
- dulliau cliriach a mwy rhesymegol ar gyfer brandio gwasanaethau.

3.14 Ein nod yw y bydd y Gyfarwyddiaeth yn gweithredu fel asiantaeth ar sail gysgodol o fis Ebrill 2007. Caiff penderfyniadau o ran statws asiantaeth llawn eu cysylltu â llwyddiant wrth fodloni cyfres o brofion perfformiad ac egluro trefniadau atebolrwydd newydd i'r Senedd. Mae'n hanfodol sicrhau bod y broses o drawsnewid y Gyfarwyddiaeth i statws asiantaeth yn hwyluso dulliau gweithio effeithiol, fel sy'n weithredol ar hyn o bryd, gydag UKvisas. Gwneir gwaith manwl i sicrhau hyn rhwng y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad cyn creu'r Gyfarwyddiaeth fel asiantaeth gysgodol ym mis Ebrill 2007 ac wedyn cyn gweithredu statws asiantaeth llawn.

3.15 Byddwn yn cyflwyno gwasanaethau rhanbarthol newydd, o dan arweiniad cyfarwyddwyr rhanbarthol pwerus a fydd ag awdurdod, rhyddid a hyblygrwydd go iawn i wella perfformiad ac atebolrwydd lleol. Bydd hyn yn helpu i roi ymdeimlad llawer cryfach o berfformiad y Gyfarwyddiaeth i gymunedau lleol, yn ogystal â sut y mae penderfyniadau yn effeithio ar bobl yn eu hardal. Byddant yn canolbwyntio ar gyflwyno gwasanaethau mewnfudo cydgysylltiedig ac yn tywys dulliau cydweithredu gwell gydag asiantaethau eraill ar lefel ranbarthol. Byddwn wedi penodi cyfarwyddwyr rhanbarthol erbyn dechrau 2007, gydag amrywiaeth llawn o gyfrifoldebau o fis Ebrill y flwyddyn honno.

3.16 Mae nifer o feysydd lle na all y farchnad leol bellach ddarparu staff â'r sgiliau addas i'r Gyfarwyddiaeth. Bydd y strwythur rhanbarthol newydd yn ein galluogi i ail-leoli ein gwasanaethau; mae'r broses hon eisoes yn mynd rhagddi drwy recriwtio gweithwyr achos ar gyfer y model lloches newydd.

System newydd ar gyfer rheoli mewnfudo sy'n deg, yn effeithiol, yn dryloyw ac yn ddidwyll



Byddwn yn:

- ymgynghori ar greu un rheoleiddiwr annibynnol;
- sefydlu Pwyllgor Cynghori newydd ar Ymfudo i gynghori'r llywodraeth ar ymfudo;
- sefydlu'r Gyfarwyddiaeth fel asiantaeth gysgodol o fis Ebrill 2007;
- sefydlu strwythur rhanbarthol newydd ar gyfer y Gyfarwyddiaeth erbyn mis Ebrill 2007.

Rhaglen 3: Datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth gref ar bob lefel

Roedd gweithwyr achos yn Lunar House am sicrhau bod cyfrifoldebau a gwobrau wedi'u halinio'n well, bod perfformiad da yn cael ei werthfawrogi, ac yr aed i'r afael â pherfformiad gwael.

3.17 Byddwn yn penodi'r bobl gywir i'r swyddi cywir. Byddwn hefyd yn gweithio i wella sgiliau ar bob lefel o fewn y busnes, yn trawsnewid ein dulliau rheoli perfformiad, ac yn sicrhau bod y sgiliau priodol ar gael yn ddigon cynnar yn y broses gwneud penderfyniadau.

3.18 Byddwn yn pennu safonau clir ar gyfer yr hyn a ddisgwylir gan ein rheolwyr a'n harweinwyr ac yn adolygu ein pobl yn erbyn y disgwyliadau hyn. Rhaid i uwch swyddogion weithio a meddwl mewn ffordd gydgysylltiedig ac atebol, a chael yr hyder, y gallu a'r systemau i wneud hynny. Rhaid i ddulliau rheoli perfformiad fod yn seiliedig ar gyfuniad o amcanion personol ac amcanion tîm. Er mwyn ysgogi perfformiad yn well, byddwn yn symleiddio'r system arfarnu ac yn cysylltu amcanion pawb yn gliriach, gan gynnwys canlyniadau, â nodau sefydliadol.

3.19 Byddwn yn edrych am ffyrdd gwell o gysylltu cyflog a gwobrau â rolau a heriau, fel rhan o broses o greu busnes unedig â lefelau perfformiad uchel. Bydd hyn yn galluogi'r Gyfarwyddiaeth i benodi staff medrus ac i wobrwyo pobl mewn ffordd hyblyg am y cyfraniad a wnânt i'r busnes. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gan reolwyr yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ymdrin â staff

nad ydynt yn cyfrannu tuag at nodau cyffredinol y sefydliad, neu sy'n dewis peidio â chyfrannu at y nodau hynny.

Byddwn yn:

- creu fframwaith rheoli perfformiad newydd i hwyluso lefelau perfformiad uchel i'n busnes;
- adolygu ein cyflogau a'n graddau fel rhan o'r broses o symud tuag at statws asiantaeth;
- cyfateb sgiliau i rolau a datblygu ein harweinwyr a'n rheolwyr.

Rhaglen 4: Rhagoriaeth sylfaenol – creu gweithrediad effeithlon a chyson.

Awgrymodd gweithwyr achos lloches yn Croydon fod cymhlethdod prosesau yn golygu ei bod yn cymryd dwy flynedd o brofiad ymarferol cyn y byddai unigolion yn eu gweithredu mewn ffordd effeithlon.

Prosesau

3.20 Yn unol â Chynllun Gweithredu Diwygiadau'r Swyddfa Gartref, byddwn yn trawsnewid prosesau'r Gyfarwyddiaeth yn sylweddol i greu cysondeb ar draws y busnes drwy symleiddio a safoni. Er enghraifft, byddwn yn gwahanu achosion syml ac achosion cymhleth ac yn cynhyrchu cyfarwyddiadau cliriach a symlach i weithwyr achos. Byddwn yn cyflwyno systemau i ategu prosesau gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar risg a rheolau, ac yn cael gwared ar swyddogaethau a gaiff eu dyblygu. Byddwn hefyd yn trawsnewid prosesau sy'n dibynnu ar adrannau eraill o'r llywodraeth, gan sicrhau y caiff y canlyniad cyffredinol ei ystyried.

3.21 Bydd gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar risgiau yn chwarae rhan hanfodol yn yr ymgais i wella ein heffeithiolrwydd. Yn hytrach nag ymagwedd 'un ateb i bawb', byddwn yn defnyddio gwybodaeth ac asesiadau risg, ar y ffiniau ac yn ein gweithrediadau gwaith achos, i dargedu ein gweithgareddau ar y bobl, y llwybrau a'r gwledydd hynny y gwyddom eu bod yn peri'r risg fwyaf.

3.22 Bydd gweithgareddau sydd wedi'u lleoli'n bennaf mewn 'canolfannau prosesu', megis gwaith achos, yn dysgu o arbenigedd o'r radd flaenaf o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus ac yn defnyddio'r arbenigedd hwnnw mewn achosion lle mae'r gweithrediad presennol yn tanberfformio'n sylweddol. Byddwn yn edrych ar amrywiaeth o ffyrdd i gyflwyno ein gwasanaethau, er mwyn darparu'r hyblygrwydd sydd ei angen ar y sefydliad i gyflawni ei nodau.

Gorfodi, rheoleiddio ac atal

3.23 Byddwn yn dyblu ein hadnoddau gorfodi a chydymffurfio ac yn ehangu ein gweithgaredd, ac rydym wedi creu swydd newydd ar lefel bwrdd i ysgogi cynnydd yn hyn o beth. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn cyflwyno model newydd ar gyfer rheoli gwaith gorfodi, gan archwilio'r opsiynau o ran comisiynu, allgontractio a threfnu contractau allanol ar gyfer gweithgareddau estynedig. Byddwn yn dod o hyd i ffyrdd arloesol o annog pobl i gydymffurfio â'n rheolau mewnfudo drwy ddefnyddio technolegau newydd a thrwy fanteisio ar arbenigedd gwahanol bartneriaid cyflwyno. Bydd ein system electronig arfaethedig ar gyfer rheoli achosion bellach yn cynnwys achosion gorfodi. A byddwn yn pennu blaenoriaethau a mesurau perfformiad clir sy'n cyfateb yn well i ddisgwyliadau'r cyhoedd ac a ddeellir drwy'r sefydliad cyfan, gan gynnwys gwelliannau i'n trefniadau ar gyfer alltudio carcharorion sy'n dramorwyr.

Byddwn yn:

- trawsnewid prosesau'r Gyfarwyddiaeth yn sylweddol i symleiddio a safoni gweithgareddau;
- defnyddio ymagwedd yn seiliedig ar risgiau er mwyn targedu ein gweithgaredd yn well ymhob un o'n meysydd busnes;

- dysgu o arbenigedd o'r radd flaenaf yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ac yn ei ddefnyddio i wella ein gweithrediadau;
- creu system newydd wedi'i chomisiynu ar gyfer gorfodi, gyda chynnydd yn cael ei ysgogi gan Gyfarwyddwr Gorfodi newydd ar lefel y bwrdd.

Rhaglen 5: Byddwn yn dod yn weithredwr technoleg blaenllaw o fewn y llywodraeth o ran systemau rheoli gwybodaeth newydd, yn arbennig o ran technolegau adnabod ac olrhain.

Roedd staff yn Sheffield o'r farn bod gan y Gyfarwyddiaeth ormod o systemau gwaith achos ac y byddai system gwaith achos gwbl integredig yn gwneud gwahaniaeth mawr i'w heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd.

Roedd swyddogion yn Llundain o'r farn bod gwybodaeth i raddau helaeth yn cael ei chadw ar bapur ac y byddai mwy o gymorth technolegol yn fuddiol.

3.24 Byddwn yn rhoi'r systemau TG o'r radd flaenaf sydd eu hangen ar y Gyfarwyddiaeth i weithio'n effeithiol ar waith. Rhaid i'r systemau hyn ategu gwaith achos effeithlon, helpu wrth wneud penderfyniadau gweithredol, a galluogi i wybodaeth gael ei rhannu rhwng gwahanol rannau o'r busnes. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:

- sefydlu system gwaith achos electronig newydd i'r fenter gyfan er mwyn darparu 'un cofnod o'r cwsmer', gan ddisodli'r systemau rhanedig presennol nad ydynt yn cyfathrebu â'i gilydd;
- datblygu ein systemau presennol ar gyfer storio data biometrig a biograffyddol er mwyn ategu systemau rheoli hunaniaeth diogel ar draws ein busnes, gan gynnwys ffordd unigryw o adnabod unigolion a ddaw i gysylltiad â'r system fewnfudo a'r system cyfiawnder troseddol, a dulliau o rannu data yn electronig gydag asiantaethau a rhanddeiliaid eraill;
- cyflwyno trefniadau llywodraethu cadarn er mwyn sicrhau ein bod yn caffael ac yn gweithredu ein systemau'n effeithiol ac yn eu hintegreiddio'n briodol ar draws y Gyfarwyddiaeth a thu hwnt, gyda systemau yn y Swyddfa Gartref ac mewn adrannau eraill.

3.25 Byddwn hefyd yn trawsnewid ein systemau gwybodaeth rheoli ac yn eu cysylltu â systemau gwybodaeth eraill ymhob rhan o'r Gyfarwyddiaeth. Bydd y systemau newydd hyn yn darparu gwybodaeth gyson, gywir ac amserol i helpu i reoli perfformiad y Gyfarwyddiaeth ac i alluogi i wybodaeth gael ei rhannu'n hawdd ar draws y Swyddfa Gartref a chydag asiantaethau eraill. A byddwn yn adolygu'r hyn a gyhoeddir gennym er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi gwybodaeth glir a chywir i'r Senedd ac i'r cyhoedd am yr hyn a wna'r Gyfarwyddiaeth a pha mor dda y mae'n perfformio.

Byddwn yn:

- sefydlu system gwaith achos electronig i'r fenter gyfan ac yn ategu'r system hon gyda gwell systemau rheoli gwybodaeth;
- trawsnewid ein ffordd o gasglu, dadansoddi, rhannu a defnyddio gwybodaeth reoli ymhob rhan o'r Gyfarwyddiaeth a thu hwnt;
- adolygu ein cyhoeddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn ystyrlon i'r cyhoedd.

Rhaglen 6: Byddwn yn dangos rhagoriaeth wrth lunio partneriaethau gyda chyrff eraill y llywodraeth, awdurdodau lleol, sefydliadau masnachol a sefydliadau'r sector gwirfoddol, a phartneriaid o Ewrop ac yn rhyngwladol.

Dywedodd swyddogion yn Llundain fod problemau o ran rhannu cudd-wybodaeth gydag adrannau eraill y llywodraeth, gan nodi eu bod am weld mwy o gydweithrediad ar lefel weithredol ar draws ffiniau sefydliadol yn hytrach na thrwy strwythurau hierarchaidd.

3.26 Byddwn yn atgyfnerthu ein cydberthnasau gyda'n partneriaid o fewn llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, y sector preifat a'r sector gwirfoddol a chymunedau, er mwyn ehangu ein cyrhaeddiad, a thrwy hynny:

- helpu sefydliadau eraill i gyflawni eu rhwymedigaethau o ran cynorthwyo wrth reoli systemau lloches a mewnfudo;
- defnyddio profiad y sector preifat a'r sector gwirfoddol i wella ein heffeithiolrwydd a chydweithio gyda hwy i fanteisio i'r eithaf ar fewnfudo a theithio rheoledig;
- gweithio gydag awdurdodau lleol a chymunedau i gydbwyso gofynion mewnfudo a darparu lloches â gofynion cydlyniad cymdeithasol.

3.27 Byddwn hefyd yn datblygu cysylltiadau agosach â'n partneriaid yn Ewrop ac yn rhyngwladol i ddod o hyd i atebion i'r heriau sy'n deillio o'r twf o ran mewnfudo byd-eang, yn arbennig i helpu i ddatrys materion o ran rheoli hunaniaeth, rheoli ffiniau, dogfennaeth ac alltudio ymhellach.

Byddwn yn:

- atgyfnerthu ein cydberthnasau â chymunedau rhanbarthol a lleol drwy'r strwythur rhanbarthol, ac yn gwneud defnydd helaethach o Gytundebau Ardal Lleol;
- ailddiffinio ein cydberthynas â phartneriaid allweddol wrth i ni symud tuag at statws asiantaeth;
- atgyfnerthu cysylltiadau â phartneriaid yn Ewrop ac yn rhyngwladol, er mwyn dod o hyd i atebion cyffredinol i heriau.

Rhaglen 7: Byddwn yn ysbrydoli diwylliant o frwdfrydedd tuag at wasanaethau cyhoeddus a balchder yn y Gyfarwyddiaeth sy'n taro gwell cydbwysedd rhwng rheoli, cydymffurfio a gwasanaethau cwsmeriaid.

Dywedodd staff yn y Swyddfa Ymholiadau Cyhoeddus yn Lerpwl fod y Gyfarwyddiaeth yn gweithio'n galed i gael pethau'n iawn a'i bod wedi gwneud gwelliannau mawr mewn rhai meysydd. Bellach mae angen cydgysylltu gwahanol elfennau er mwyn creu sefydliad llwyddiannus sy'n cyflawni ymhob maes.

3.28 Er mwyn ailennyn hyder, mae angen i ni newid diwylliant y Gyfarwyddiaeth. Mae angen un sefydliad unedig arnom sy'n cael ei ystyried gan y cyhoedd, a'r rheini sy'n defnyddio ein gwasanaethau, fel sefydliad teg, effeithiol, tryloyw a didwyll.

3.29 Byddwn yn cyflwyno dulliau brandio a lifrau newydd, gweladwy ar ein ffiniau a meysydd allweddol eraill lle y deuir i gysylltiad â'r cyhoedd fel bod gan staff y Gyfarwyddiaeth bresenoldeb cyhoeddus clir a phendant, gan sicrhau bod teithwyr yn ymwybodol o arwyddocâd croesi'r ffiniau i Brydain.

3.30 Fel rhan o'r broses o roi statws asiantaeth i'r Gyfarwyddiaeth, bydd y Swyddfa Gartref yn llunio contract perfformiad llym ar gyfer cyflwyno gwasanaethau sy'n adlewyrchu disgwyliadau'r cyhoedd.

Byddwn yn:

- cyflwyno presenoldeb a lifrau newydd, gweladwy ar ein ffiniau er mwyn atgyfnerthu dulliau atal a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd;
- dechrau proses barhaus o newid diwylliant;
- cynnwys gwerthoedd newydd y Swyddfa Gartref a'r Gyfarwyddiaeth fel rhan o safonau gwasanaeth i'r asiantaeth newydd.

Pennod 4:

Gwneud iddo ddigwydd

Ni cheir newid dros nos

4.1 Rhaid i ni ddechrau ailennyn hyder y cyhoedd yn gyflym. Byddwn yn gweithredu ar unwaith mewn rhai meysydd, gan gynnwys cynigion ar gyfer deddfwriaeth gynnar, newidiadau i ddulliau gorfodi ac alltudio, presenoldeb a lifrau newydd, gweladwy ar ein ffiniau, a threfniadau ar gyfer yr asiantaeth newydd.

4.2 Mae a wnelo llawer o'r pethau yn yr adroddiad hwn â newid tymor hwy. Ni allwn drawsnewid ein prosesau a'n systemau craidd dros nos. Mae rhai newidiadau yn dibynnu ar newidiadau yn y Swyddfa Gartref ac mewn mannau eraill. Bydd angen rhagor o waith ar rai ohonynt, megis ein cynigion ar gyfer un rheoleiddiwr, a bydd angen ymgynghori ar egwyddorion yr hyn yr ydym yn ei gynnig a'r manylion ar gyfer sut y gellid ei gyflawni.

Yr hyn a wnawn i'w weithredu – creu gallu eithriadol i newid, a thrawsnewid y Gyfarwyddiaeth mewn ffordd gynaliadwy

4.3 Er mwyn cyflwyno'r agenda heriol hon, rhaid i'r Gyfarwyddiaeth wella ei ffordd o reoli a chyflwyno newidiadau ar raddfa fawr. Rhaid i'r rhaglen hon gael ei gweithredu ochr yn ochr â'n busnes o ddydd i ddydd, gydag arweinyddiaeth a chydlyniad cyffredinol cryf o'r brig. Mae angen iddi fod yn hyblyg er mwyn i ni allu parhau i ymateb i heriau beunyddiol ein busnes. Bydd y rhaniad amlwg rhwng newid a 'busnes fel arfer' o gymorth wrth weithredu gan roi cyfarwyddyd i'r staff o ran beth y disgwylir iddynt ei wneud yn gyntaf.

4.4 Er mwyn cyflawni proses drawsnewid sylweddol ar y raddfa hon, mae angen i ni ddod â thîm eithriadol o bobl ynghyd, gyda'r cylch gwaith a'r mandad sy'n ofynnol i ysgogi newid drwy'r sefydliad cyfan ar bob lefel, yn uniongyrchol atebol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol.

4.5 Byddwn yn cydbwyso cyflymder y newid yn erbyn gofynion y Gyfarwyddiaeth wrth gyflawni ei swyddogaethau sylfaenol. Bydd ein hymagwedd yn uchelgeisiol ond yn cael ei chyflwyno fesul cam – meddwl ar raddfa fawr, dechrau ar raddfa fach, datblygu'n gyflym. Byddwn yn ysgogi newidiadau cadarn ac yn cyflawni cynnydd amlwg ar gam cynnar, er mwyn cynnal momentwm ac ennyn hyder a brwdfrydedd cynyddol tuag at newid yn y busnes.

4.6 Rhwng nawr a mis Medi eleni, byddwn yn datblygu cynlluniau manwl ar gyfer gweithredu'r cynigion hyn. Mae'r siart ar dudalennau 23 a 24 yn nodi'r cerrig milltir allweddol y disgwyliwn eu cyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf.

Sut y byddwn yn darparu'r adnoddau angenrheidiol

4.7 Mae a wnelo llawer o'n cynigion â gwella'r hyn a wnawn ar hyn o bryd gyda'n hadnoddau presennol. Bydd rhai ohonynt – megis ein cynigion i symleiddio'r fframwaith cyfreithiol, cyflymu'r broses gwneud penderfyniadau, gwneud gwell defnydd o dechnoleg hunaniaeth, a chyfyngu mynediad i wasanaethau a budd-daliadau i'r rheini nad oes hawl ganddynt i'w cael – yn arwain at arbedion sylweddol yn y tymor hwy. Bydd cost cynnal ceiswyr lloches yn gostwng wrth i ni barhau i leihau'r nifer a gaiff eu derbyn i'r wlad a gwneud penderfyniadau ar achosion. Byddwn yn cyflwyno newid fesul cam mewn cynhyrchiant drwy wasanaethau a rennir a gwell arferion gwaith.

4.8 Byddwn yn defnyddio'r arbedion hyn i ariannu'r broses o ddatblygu technoleg rheoli hunaniaeth sylfaenol a'r datblygiadau seilwaith eraill y mae eu hangen ar y Gyfarwyddiaeth i drawsnewid ei busnes.

4.9 Mae angen i ni sicrhau hefyd ein bod yn codi cyfraddau teg a darbodus am ein gwasanaethau. Byddwn yn cyflwyno system codi tâl fwy cynhwysfawr ar gyfer gwasanaethau, a fydd yn adlewyrchu'r gost wirioneddol i drethdalwyr y DU, tra'n cydnabod hefyd fuddiannau economaidd teithio a mewnfudo.

4.10 Caiff yr amserlen ar gyfer rhai buddsoddiadau mwy, er enghraifft rhaglenni cyfalaf, ei phennu gan gyfanswm yr adnoddau a ddygir ymlaen gennym, gan gyflawni arbedion effeithlonrwydd ac incwm yn sgîl codi tâl.

Cael pethau'n iawn – ymgynghori â staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd

4.11 Dechrau proses yw hyn. Bydd ymgynghori â'r bobl sy'n gweithio yn y Gyfarwyddiaeth ac UKvisas, a chyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol ledled y Deyrnas Unedig a'r byd, yn hanfodol wrth drawsnewid y system. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â chwmnïau cludo a phorthladdoedd er mwyn sicrhau bod y mesurau hyn yn cynnal gallu'r DU i gystadlu ac yn hwyluso taith teithwyr risg isel.

4.12 Caiff rhai o'r cynigion hyn effaith ar fusnesau a'r sector cyhoeddus. Rydym wedi cynnal asesiad cychwynnol o sut y gallai'r cynigion hyn effeithio ar fusnesau a'r sector gwirfoddol. Rydym yn cydnabod y gallai ein cynigion i atgyfnerthu gwiriadau ar hunaniaeth a mynd i'r afael â gweithio anghyfreithlon osod rhywfaint o faich ychwanegol ar fusnesau, a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i leihau'r baich hwn.

4.13 Bydd nifer o'n cynigion hefyd yn symleiddio rheoliadau ac yn lleihau biwrocratiaeth. Dylai ein cynlluniau i drawsnewid y cyfreithiau, y rheolau a'r canllawiau cymhleth ar fewnfudo ac i gyflwyno'r System yn Seiliedig ar Bwyntiau helpu gweision sifil, ymwelwyr, cyflogwyr, sefydliadau addysgol a'r diwydiant teithio fel ei gilydd. Bydd dulliau rheoli ar y ffin yn seiliedig ar risgiau, a'r broses o gyflwyno technoleg fiometrig, yn ein helpu i dargedu camau gweithredu ar lwybrau risg uchel ac i hwyluso taith teithwyr yr ymddiriedir ynddynt.

4.14 Byddwn yn asesu'r mesurau arfaethedig i atgyfnerthu dulliau rheoli ar y ffin o ran eu heffaith ar fusnesau ond hefyd o ran eu heffaith ar economi'r DU yn gyffredinol. Byddwn yn cynnal ac yn cyhoeddi Asesiadau llawn o'r Effaith Reoleiddiol ar gynigion penodol lle y bydd hynny'n briodol.

4.15 Rydym hefyd wedi cynnal Asesiad cychwynnol o'r Effaith o ran Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer y cynigion yn y ddogfen hon er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith andwyol ar grwpiau hil penodol. Mae'r asesiad hwn ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref (www.homeoffice.gov.uk).

4.16 Bydd angen ymgynghori ar rai o'n cynigion – er enghraifft, ar gyfer un rheoleiddiwr. Byddwn hefyd yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau yn ystod y misoedd nesaf i brofi syniadau pellach ac i fireinio ein cynlluniau.

4.17 Yn y cyfamser, byddem yn croesawu unrhyw sylwadau cychwynnol ar y ddogfen hon. Gellir eu hanfon at indreviewcomments@homeoffice.gov.uk, neu i:

IND Review Comments
Immigration and Nationality Directorate
Home Office
Apollo House
36 Wellesley Road
Croydon CR9 3RR

Atodiad

Crynodeb o'r cerrig milltir

Ein hamcan	Yr hyn y bwriadwn ei gyflawni...			
	Erbyn mis Rhagfyr 2006	**Erbyn mis Ebrill 2007**	**Erbyn mis Ebrill 2008**	**Erbyn mis Ebrill 2009**
Atgyfnerthu ein ffiniau a chynnal mwy o wiriadau, a gwiriadau mwy llym, dramor, gan wybod pwy sy'n dod i mewn i'r wlad ac yn ei gadael, a phwy sy'n torri'r gyfraith pan fyddant yma	• Data cyn-cyrraedd yn cynnwys symudiadau 15m o deithwyr ar 45 o lwybrau • Fisâu biometrig ar gyfer 35,000 o dramorwyr y mae angen fisa arnynt bob mis • Gwell gweledded ar ffiniau • Cynllun gweithredu ar gyfer lifrau ar ffiniau, gan gynnwys cynigion ar gyfer codau ymddygiad newydd	• Data cyn-cyrraedd yn cynnwys symudiadau 20m o deithwyr ar 55 o lwybrau • Fisâu biometrig ar gyfer 100,000 o dramorwyr y mae angen fisa arnynt bob mis • Cynlluniau gweithredu ar waith ar gyfer y deg gwlad lle ceir y risg fwyaf o niwed • Rheolaethau ymadael yn seiliedig ar gudd-wybodaeth ar waith mewn porthladdoedd dethol, wedi'u hategu gan dimau symudol a data Semaphore • Deddfwriaeth ar bwerau newydd yn barod i'w chyflwyno • Cynllun peilot o lifrau ar ffiniau	• Data cyn-cyrraedd yn cynnwys symudiadau 30m o deithwyr dros 90 o lwybrau • Cwblhau'r broses o gyflwyno fisâu biometrig ledled y byd • Datblygu rheolaethau ymadael yn seiliedig ar gudd-wybodaeth ymhellach, wedi'u hategu gan ddata gadael Semaphore • Gwasanaeth gweladwy, lifredig ar waith ar y ffin mewn lleoliadau cam 1, gan gynnwys Adeilad 5 Heathrow	• Ffin wedi'i allforio gan gynnwys y cynllun 'awdurdod i gludo' cam 1 a data cyn-cyrraedd ar symudiadau 100m o deithwyr • Gofynion adnabod diogel ac unigryw ar gyfer pob grŵp risg uchel cyn y caniateir iddynt deithio • Safonau unffurf ar waith ar gyfer pob aelod o staff rheoli ffiniau yn y rheng flaen
Penderfyniadau lloches llwybr carlam, gan gael gwared ar y rhai y bydd eu ceisiadau yn methu ac integreiddio'r rhai y mae angen ein diogelwch arnynt	• Model rhanbarthol ar waith ar gyfer rheoli ceiswyr lloches • Rhaglen etifeddiaeth ar waith • Mwy o bobl yn cael eu halltudio na nifer y ceisiadau di-sail • System rheoli cysylltiadau ar gyfer pobl sy'n gwneud cais am loches ar waith	• 35 y cant o benderfyniadau terfynol ar geiswyr lloches yn cael eu gwneud o fewn chwe mis • Y rhaglen etifeddiaeth yn parhau • Mwy o bobl yn cael eu halltudio na nifer y ceisiadau di-sail • Pob un sy'n gwneud cais am loches yn cael eu tagio neu eu monitro	• 40 y cant o benderfyniadau terfynol ar geiswyr lloches yn cael eu gwneud o fewn chwe mis (targed ar gyfer diwedd mis Rhagfyr 2007) • Y Model Lloches a Mwy newydd wedi'i weithredu'n llawn • Y rhaglen etifeddiaeth yn parhau • Mwy o bobl yn cael eu halltudio a gostyngiad pellach yn nifer y ceisiadau di-sail	• 60 y cant o benderfyniadau terfynol ar geiswyr lloches yn cael eu gwneud o fewn chwe mis (targed ar gyfer diwedd mis Rhagfyr 2008) • Y rhaglen etifeddiaeth yn parhau _ • 3,500 o bobl yn cael eu halltudio bob mis
Sicrhau a gorfodi cydymffurfiaeth gyda'n cyfreithiau mewnfudo, gan alltudio'r bobl fwyaf niweidiol yn gyntaf a gwrthod breintiau Prydain i'r rhai sydd yma'n anghyfreithlon	• Datblygu model comisiynu newydd ar gyfer gorfodi • Cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â phobl sydd wedi aros yn rhy hir a mewnfudwyr anghyfreithlon • Datblygu cynigion ar gyfer pwerau newydd • Cytuno ar strategaeth i'r llywodraeth gyfan o ran gorfodi	• Trefniadau newydd ar gyfer cydymffurfio a gorfodi ar waith • Deddfwriaeth pwerau newydd yn barod i'w chyflwyno • Dulliau gweithio ar draws y llywodraeth gyfan ar waith	• Cynnydd sylweddol yn yr ymdrech gorfodi a chydymffurfio • Pwerau newydd ar waith • Targedau cyffredin ar gyfer gwella cydymffurfio ar waith	• Dyblu'r adnoddau ar gyfer gorfodi a chydymffurfio • Cynnydd mesuradwy o ran cydymffurfio, gyda thargedau cyffredin yn ysgogi camau gorfodi

Ein hamcan	Yr hyn y bwriadwn ei gyflawni…			
	Erbyn mis Rhagfyr 2006	Erbyn mis Ebrill 2007	Erbyn mis Ebrill 2008	Erbyn mis Ebrill 2009
Hybu economi Prydain drwy ddenu'r sgiliau cywir yma o bob cwr o'r byd, a chan sicrhau bod Prydain yn hawdd ymweld â hi'n gyfreithlon	• System yn Seiliedig ar Bwyntiau wrthi'n cael ei datblygu • Cytuno ar gynigion ar gyfer Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo • Cynllun teithwyr yr ymddiriedir ynddynt ar waith ar gyfer 40,000 o gwsmeriaid	• System yn Seiliedig ar Bwyntiau wrthi'n cael ei datblygu • Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo yn cael ei sefydlu • Cynllun teithwyr yr ymddiriedir ynddynt ar waith ar gyfer 60,000 o gwsmeriaid • Yn ofynnol i ymfudwyr sy'n awyddus i ymgartrefu feddu ar sgiliau Saesneg	• Haen pobl fedrus y System yn Seiliedig ar Bwyntiau ar waith • Y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo bellach ar waith • Ehangu'r cynllun teithwyr yr ymddiriedir ynddynt ymhellach • Gwiriadau mwy llym ar gyfer teithwyr o wledydd risg uchel	• Haenau gweithwyr medrus, myfyrwyr, symudedd ieuenctid a gweithwyr dros dro y System yn Seiliedig ar Bwyntiau ar waith • Dulliau cyrraedd a gadael cyflym ar gyfer teithwyr yr ymddiriedir ynddynt drwy ddefnyddio biometreg • Gwiriadau mwy llym ar gyfer teithwyr o wledydd neu lwybrau risg uchel
Creu system sy'n deg, yn effeithiol, yn dryloyw ac yn ddidwyll	• Cynlluniau ar gyfer asiantaeth newydd ar waith • Cyfarwyddwyr rhanbarthol yn cael eu penodi • Adolygiad o brosesau ar waith • System gwaith achos wedi'i chomisiynu i fentrau newydd • Adolygu gwybodaeth reoli ac ystadegol	• Daw'r Gyfarwyddiaeth yn asiantaeth gysgodol, gyda safonau rheoli perfformiad a safonau gwasanaeth newydd • Ymgynghori ar reoleiddiwr newydd • Strwythurau rhanbarthol ar waith • Adolygu cyflogau a graddau • Cynllun diwygio prosesau ar waith • Cynigion ar gyfer symleiddio'r fframwaith cyfreithiol yn cael eu datblygu i ymgynghori arnynt	• Penderfyniadau ar statws yn y dyfodol a newidiadau sefydliadol eraill • Penderfyniadau ar reoleiddiwr newydd • System gwaith achos newydd yn cael ei chynnal ar sail peilot ar gyfer y System yn Seiliedig ar Bwyntiau • Cynigion ar gyfer symleiddio'r fframwaith cyfreithiol yn barod i graffu arnynt cyn y cam deddfwriaethol	• Newidiadau sefydliadol ar waith • Prosesau pen-i-ben safonol ar waith • System gwaith achos electronig newydd ar waith • Cwblhau'r broses diwygio deddfwriaeth

Cynhyrchwyd gan COI ar ran y Swyddfa Gartref, Gorffennaf 2006. Cyf: 275921